**Eitem: 14**

**Teitl:** Adroddiad Risg a Dangosfwrdd Risg

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Am sylwadau a sicrwydd |
| **Amseru / Timing** | Adrodd Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i aelodau'r Bwrdd ystyried a chraffu ar yr adroddiad risg a'r dangosfwrdd risg. |
| **Risg / Risk** | Gallai methu â dal a rheoli ein risgiau strategol arwain at ganlyniadau tymor byr a hwy i Llais. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn. |
| **Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective**<br>**Amcan cynllun strategol / Strategic plan objective** | Mae ein trosolwg o risgiau corfforaethol yn ceisio rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod risgiau strategol wedi'u nodi a'u bod yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'n rhan o'n trefniadau llywodraethu a sicrwydd. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid oes unrhyw faterion Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant uniongyrchol, ond gallai fod nodweddion ym mhob risg. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Mae'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd |
| **Trafodaethau neu penderfyniadau blaenorol / Previous discussions or decisions** | Mae'r dangosfwrdd risg sydd ynghlwm yn drosolwg o risgiau corfforaethol a strategol hyd at ddiwedd Awst 2024. |
| **Awdur Cyflwyno / Author/presenting** | Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd. |
| **Dyddiad / Date** | 17 Medi 2024 |
| **Cefndir / Background** | |

Mae'r bwrdd wedi ystyried fersiynau blaenorol o adroddiadau risg corfforaethol ac wedi rhoi sylwadau ac awgrymiadau ar sut i wella'r adrodd. Mae newidiadau wedi parhau i gael eu gweithredu a'u trafod. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen rhagor o waith yn enwedig o ran ffynonellau sicrwydd, terfynau amser ar gyfer gweithredu a chanlyniadau disgwyliedig.

Mae Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd wedi bod yn cynnal gwaith adolygu ar y fframwaith a phrosesau rheoli risg a bydd hyn yn parhau. Rhoddir rhagor o wybodaeth isod.

Mae elfennau ychwanegol wedi'u hychwanegu at yr adroddiad hwn hefyd. Fodd bynnag, bydd datblygiadau pellach yn parhau fel rhan o'r adolygiad, a'r bwriad yw cyflwyno adroddiad dangosfwrdd risg newydd.

## Manylion/Detail

**Fframwaith ac Adolygiad Rheoli Risg**

Mae Llais wedi parhau i weithredu a mireinio ei ddull o reoli risg yn ystod 2023/2024. Mae adolygiad cyflawn o'r dull risg yn parhau. Bwriedir i hyn arwain at adolygiad sylweddol o'r Strategaeth Rheoli Risg a'r dull gweithredu ar gyfer Llais. Mae Strategaeth Rheoli Risg ddiwygiedig hefyd wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w thrafod.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i roi cyngor ar effeithiolrwydd gweithredu'r dull risg er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cyrraedd ei lawn botensial mewn perthynas â'r Strategaeth Rheoli Risg ddiwygiedig. Bydd strategaeth rheoli risg ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r bwrdd i'w chymeradwyo maes o law.

Wrth fonitro'r gweithredu parhaus, bydd unrhyw risgiau i ddiffyg cyflawni neu fylchau yng nghyflawniad nodau ac amcanion Llais yn cael eu nodi a'u gweithredu gyda chamau adferol wedi'u cytuno a'u gweithredu i liniaru a sicrhau bod y cynllun yn parhau i symud ymlaen drwy Tîm Arwain a pherchnogion risg. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn i ddod trwy gwblhau a mabwysiadu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd drafft arfaethedig wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w drafod.

Ym mhob cyfarfod Bwrdd Llais, bydd y Bwrdd yn parhau i dderbyn adroddiad risg strategol, a fydd yn rhoi cyfrif lefel uchel o'r prif risgiau sydd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Cyflwynwyd dangosfwrdd risg cychwynnol i gyfarfod y bwrdd ym mis Gorffennaf a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu'r dangosfwrdd drwy'r system OKR.

**Proffil Risg Cyfredol:**

Ar ddiwedd mis Awst 2024, roedd 16 o risgiau strategol wedi'u disgrifio yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol sy'n cynrychioli'r risgiau mwyaf sylweddol i'r sefydliad, a allai effeithio o bosibl ar gyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd. Sgoriau risg gweddilliol y risgiau hyn yn dilyn mesurau lliniaru yw:

- Uchel iawn 4
- Uchel 8
- Cymedrol 4
- Isel 0

Ychwanegwyd risg newydd yn ystod yr adolygiad diwethaf ac mae hyn yn ymwneud ag adolygiad Gwasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Themâu risg allweddol eraill y risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol yw:

- Dealltwriaeth o rôl a chylch gorchwyl Llais
- Newid sefydliadol a newid diwylliannol
- Sicrhau gwirfoddolwyr
- Pobl a sgiliau
- Galw am wasanaeth a chefnogaeth Llais
- Disgwyliadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid o Llais
- Partneriaethau a chytundebau gwasanaeth
- Gweithredu TG, methiant systemau, a seiberddiogelwch
- Sefyllfa ariannol

Mae copi o'r dangosfwrdd risg diweddaraf ar ddiwedd mis Awst 2024 wedi'i atodi er gwybodaeth.